

Cynllun Busnes 2026/27

Cynnwys

Rhagair a chyflwyniad	4
Rhagair	4
Cyflwyniad	6
Ein ffocws ar gyfer 2026/27	7
Strategaeth gorfforaethol 2026/28	8
Gwerthoedd	10
Ein gwaith	12
Gwasanaeth gwyh i ddefnyddwyr, partneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau	12
Blaenoriaethau 2026/27	13
Ein gweithgareddau 2026/27	13
Mesurau llwyddiant	14
Systemau a phrosesau sy'n gweithio i'n defnyddwyr gwasanaeth a ninnau	16
Blaenoriaethau 2026/27	17
Ein gweithgareddau 2026/27	17
Mesurau llwyddiant	17
Pobl sydd wedi ymgysylltu, wedi'u galluogi a'u grymuso	18
Blaenoriaethau 2026/27	19
Ein gweithgareddau 2026/27 1	19
Mesurau llwyddiant	19
Mae ein gwaith yn ychwanegu gwerth ac yn cael effaith gadarnhaol	20
Blaenoriaethau 2026/27	21
Ein gweithgareddau 2026/27	21
Mesurau llwyddiant	21
Ein cyllid a'n risgiau	22
Ein cyllid	22
Ein risgiau	23

Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol (DG)

Mae ein Cynllun Busnes 2026/27 yn adeiladu ar waith caled ac ymroddiad ein staff a'n rhaglen Trawsnewid, a lwyddodd i gyflawni newidiadau mawr i'r ffordd yr oeddem yn gweithio yn 2025/26. O ganlyniad i'n trawsnewidiad, yn 2025/26 .

- Fe wnaethon ni ymchwilio'n annibynnol i fwy o'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd. Yn 2025/26 fe ddechreuon ni rhwng 310 a 320 o ymchwiliadau, a oedd yn gynnydd o 12% ers 2024/25.
- Fe wnaethon ni gynyddu nifer yr ymchwiliadau a gwblhawyd o fewn 6 a 12 mis.
- Fe wnaethon ni gwblhau mwy o adolygiadau nag a dderbyniwyd. Dyma oedd y sefyllfa bob mis ers mis Ionawr 2025 ac fe wnaethom leihau'r amser cwblhau o 155 diwrnod gwaith i 69 diwrnod gwaith. Cyflawnwyd y gwelliant hwn yng nghyd-destun galw cynyddol am adolygiadau.
- Fe wnaethon ni gyflwyno ein model cyflawni cenedlaethol, sy'n anelu at ganiatáu inni ddefnyddio ein adnoddau'n fwy hyblyg ledled Cymru a Lloegr. Roedd cyflwyno'r model hwnnw'n cyd-daro â darlledu pennod o Panorama, a oedd yn canolbwyntio ar ymddygiad swyddogion heddlu yng ngorsaf heddlu Charing Cross a'r saethu trasig y tu allan i Gynulleidfa Hebraeg Heaton Park ym Manceinion. Galluogodd ein model cenedlaethol ni i newid cyfeiriad ac ymateb yn gyflym i'r ddau ddigwyddiad. Gwnaethom gyfeirio swyddogion a oedd yn rhan o'n ymchwiliad i Charing Cross at Wrandawiadau Camymddwyn



wedi'u Cyflymu a datgan bod yr holl swyddogion a oedd yn rhan o'r saethiad heddlu ym Manceinion yn dystion, yn hytrach nag o dan amheuaeth, yn fuan ar ôl i'r ddau achos gael eu cyfeirio atom.

Trawsnewid a gwella perfformiad IOPC fel ein bod yn IOPC sy'n perfformio'n uchel ac yn cael ei ymddiried gan y cyhoedd a'r heddlu, yw fy ffocws llwyr. Fe welwch ein bod wedi gwneud hyn yn flaenoriaeth hollbwysig i ni yng Nghynllun Busnes 2026/27.

Rydym wedi dadlau'n gyson, er mwyn i ni fod yn sefydliad credadwy â dylanwad dilys, bod trawsnewid ystyrlon yn hanfodol — ac mae Papur Gwyn diweddar y Llywodraeth yn darparu tystiolaeth glir ein bod wedi dechrau cyflawni hyn. Yn hollbwysig, mae'n rhoi cymeradwyaeth gref i'n rhaglen Trawsnewid, a byddwn yn un o'r ychydig rannau o blismona sy'n parhau i fod heb eu heffeithio gan ehangder y diwygiadau y mae'r Llywodraeth yn eu bwrw ymlaen. Mae hyn yn rhoi'r hyder inni barhau â'n gwaith, gan wybod bod gennym gefnogaeth glir y Llywodraeth i wneud hynny.

Rwyf am i IOPC ystyried sut y gallwn fod yn fwy radical yn ein hailgynllunio o brosesau i'n helpu i ymdopi â'r galw cynyddol, ond gan barhau i ddarparu gwasanaeth gwych i bawb sy'n rhyngweithio â ni. Rhan o'r gwaith hwnnw fydd ystyried sut y gallem ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial i'n galluogi i weithio'n glyfrach, nid yn galetach, a'n galluogi i ddefnyddio ein adnoddau'n effeithiol.

Mae'n allweddol nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei golli yn ein

prosesau. Rwyf am i'r defnyddiwr gwasanaeth fod wrth wraidd ein gwasanaethau wedi'u trawsnewid ac i wella ansawdd yr hyn a wnawn. Byddwn yn chwilio am ffyrdd gwell o fonitro bod ein gwasanaeth yn gwella trwy dargedau newydd ansawdd gwell.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn buddsoddi yn ein pobl. Rydym yn mabwysiadu dull rhagweithiol ac ataliol o ran llesiant, ac rydym yn gwella amrywiaeth ein staff o ran hil ac anabledd. Rwyf am wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei gyflawni ymhlith ein staff uwch hefyd.

Cyrhaeddais IOPC gyda mandad clir i drawsnewid y sefydliad, ac mae ein gwelliannau diweddar mewn perfformiad yn dangos gwerth y gwaith hwn. Mae'r effaith rydym yn dechrau ei weld o'n rhaglen Trawsnewid yn dyst i ymrwymiad a gwaith parhaus staff IOPC dros y 18 mis diwethaf. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda nhw i adeiladu ar eu cyflawniadau hyd yn hyn.

Rachel Watson
Cyfarwyddwr Cyffredinol

Cyflwyniad

I adlewyrchu ein ffocws ar drawsnewid IOPC, fe wnaethom fabwysiadu ein hamcanion trawsnewid fel ein hamcanion strategol. Fe wnaethon ni hefyd ychwanegu amcan ychwanegol at ein gwaith allanol. Ein hamcanion strategol ar gyfer 2026/27 yw:

- gwasanaeth gwych i ddefnyddwyr, partneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau

- systemau a phrosesau sy'n gweithio i'n defnyddwyr gwasanaeth ac i ni
- pobl sydd wedi ymgysylltu, wedi'u galluogi a'u grymuso
- mae ein gwaith yn ychwanegu gwerth ac yn cael effaith gadarnhaol

Yn ddiweddarach eleni byddwn yn adnewyddu ein cynllun corfforaethol, gan ei alinio â'n Rhaglen Trawsnewid.

Ein ffocws ar gyfer 2026/27

Mae tudalennau 12 a 21 yn rhoi trosolwg o'r hyn y byddwn yn ei gyflawni ar gyfer pob un o'n hamcanion strategol a'n blaenoriaethau sefydliadol. Ein blaenoriaethau sefydliadol yw:

Critigol

- Byddwn yn hybu cynhyrchiant, ansawdd uchel ac amseroldeb ym mhob rhan o IOPC er mwyn ein galluogi i gwblhau ein hymchwiliadau a'n gwaith achos yn gyflymach.



Pwysig

- Byddwn yn rhoi profiad y defnyddiwr gwasanaeth wrth wraidd ein prosesau wedi'u hailddiffinio .
- Byddwn yn defnyddio'r data sydd ar gael i ni i sbarduno gwelliannau i'r gwaith a wnawn a'r system cwynion ehangach.
- Byddwn yn sicrhau bod ein holl waith yn ein cefnogi i fod yn sefydliad gwerthfawr.
- Byddwn yn rheoli ac yn datblygu ein staff fel eu bod yn gallu cyfrannu'n effeithiol at waith IOPC.
- Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu yn atgyfnerthu ein nod o ddarparu gwasanaeth gwych drwy ddangos effaith ein gwaith.

Er mwyn olrhain perfformiad, fe wnaethom ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), a restrir o dan bob un o'n hamcanion strategol.

Mae tudalennau 22 a 24 yn amlinellu ein dyraniad adnoddau a'r risgiau ar gyfer y cynllun hwn.

Strategaeth Gorfforaethol IOPC 2026/28



Ein gwerthoedd



Rydym yn ceisio'r gwirionedd

Rydym yn archwilio'r ffeithiau i gael dealltwriaeth ddyfnach



Rydym yn gynhwysol

Rydym yn trin pawb yn gyfartal ac yn gwerthfawrogi eu persbectif



Rydym wedi ein grymuso

Rydym yn ymddiried yn ein pobl ac yn darparu amgylchedd cefnogol



Rydym yn ddygn

Rydym yn goresgyn heriau i gyrraedd ein nodau



Rydym yn gwneud gwahaniaeth

Rydym yn frwdfrydig am wella plismona a hyder y cyhoedd



Gwasanaeth gwych i ddefnyddwyr, partneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau

Un o'r darnau adborth cyson rydym yn derbyn gan ein rhanddeiliaid yw'r angen i wella amseroldeb ein hymchwiliadau a'n gwaith achos. Er i ni wneud cynnydd rhagorol yn 2025/26, rydym yn cydnabod bod mwy y gallwn ei wneud i gynyddu ein cynhyrchiant er mwyn darparu gwasanaeth gwych i ddefnyddwyr, partneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau. Yn 2026/27, byddwn yn gwneud mwy o welliannau yn ein perfformiad trwy'r gweithgareddau canlynol:

Blaenoriaethau 2026/27

- Byddwn yn hybu cynhyrchiant, ansawdd uchel ac amseroldeb ym mhob rhan o IOPC er mwyn ein galluogi i gwblhau ein hymchwiliadau a'n gwaith achos yn gyflymach.
- Byddwn yn rhoi profiad y defnyddiwr gwasanaeth wrth wraidd ein prosesau wedi'u hailddiffinio.

Ein gweithgareddau yn 2026/27

Byddwn yn cyflawni ein hamcan strategol trwy ein gwaith craidd:

- asesu achosion a atgyfeirir atom gan heddluoedd bob blwyddyn a phenderfynu sut y dylid ymchwilio iddynt
- ymchwilio'n annibynnol i'r achosion camymddwyn a llygredd mwyaf difrifol sy'n cynnwys yr heddlu. Mae'r achosion 'gwaith craidd' hyn yn cynnwys achosion posib o dorri Erthyglau 2 a 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a gallant gael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd mewn plismona.
- cyfarwyddo ymchwiliadau i achosion cymhleth a'r rhai sydd angen adnoddau arbenigol. (Mae ymchwiliadau cyfeiriedig yn digwydd o dan ein cyfarwyddyd a'n rheolaeth ond rydym yn defnyddio adnoddau'r heddlu i gynnal a chwblhau'r ymchwiliad.)
- ystyried ceisiadau am adolygiad gan bobl sy'n anfodlon â'r ffordd y gwnaeth yr heddlu ymdrin â'u cwyn, er mwyn penderfynu a oedd hyn yn rhesymol ac yn gymesur
- adolygu achosion sy'n ymwneud â marwolaeth neu anaf difrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu i sicrhau eu bod wedi cael eu trin yn briodol gan yr heddlu

- ymateb i geisiadau am wybodaeth, cyngor ac arweiniad a dderbynnir bob blwyddyn gan ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid
- cyflwyno canfyddiadau o'n hachosion mewn gwrandawiadau disgyblu, pan fo hynny er budd y cyhoedd
- ymchwilio i uwch-gwynion gyda'r Coleg Plismona ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhdy (HMICFRS)
- ymateb i ymholiadau'r cyfryngau am ein gwaith
- gyrru gwelliannau ar draws IOPC wedi'u llywio gan ein archwiliadau a'n adolygiadau rheolaidd o'n gwaith a goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr llinell

Byddwn hefyd yn parhau i drawsnewid IOPC drwy:

- gwblhau asesiad mwy radical o'r broses adolygu i'n galluogi i reoli'r galw cynyddol gyda llai o adnoddau, wrth ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson. Byddwn yn ystyried y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a sut rydym yn mabwysiadu dull mwy cymesur
- canolbwyntio ein gweithgareddau goruchwyllo ac ymgysylltu mewn meysydd a chyda rhanddeiliaid lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf
- ymgorffori ein Model Ymchwiliadau Cenedlaethol i sicrhau bod ein hymchwiliadau'n cael adnoddau priodol, a'u cefnogi gan ein timau arbenigol lle'n briodol
- cefnogi ymgysylltiad â theuluoedd yn yr achosion mwyaf difrifol drwy barhau i weithredu ein system o ymgysylltu ehangach. Y newidiadau allweddol yw cyhoeddi adroddiadau terfynol,

- cyfathrebu â theuluoedd, a datgelu i deuluoedd . (Bydd hyn ar gyfer achosion lle mae Erthygl 2 ar yr hawl i fywyd yn berthnasol.)
- gweithredu arferion cenedlaethol i wella datgeliadau a symud datgeliadau arbenigol i fodel cenedlaethol. Byddwn hefyd yn dylunio a gweithredu model cenedlaethol ar gyfer cefnogaeth mewn achosion ac yn ystyried sut gall y model hwnnw gefnogi ein huned gyflwyno.
 - adolygu ein prosesau o’r dechrau i’r diwedd mewn ymchwiliadau i sicrhau bod pob elfen yn gymesur. Bydd hyn yn cynnwys bod yn fwy cymesur yn ein adroddiadau terfynol er mwyn rhoi canlyniadau cyson a dealladwy i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ddiwedd ymchwiliad.
 - gweithredu newidiadau a gyflwynwyd gan y Bil Troseddu a Phlisma, a fydd yn newid ein prosesau i gymhwyso’r trothwy atgyfeirio newydd i Wasanaeth Erllyn y Goron (CPS) a hawl dioddefwyr i adolygu. Pan ddaw’n gyfraith, byddwn yn gweithredu’r prawf cyfreithiol ar gyfer defnyddio grym mewn achosion o gamymddwyn
 - gweithredu’r Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd), drwy roi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff ymchwilio i ddeall y ddyletswydd o onestrwydd ar swyddfeydd heddlu a chamymddwyn statudol mewn troseddau swydd gyhoeddus. (Mae’r Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) yn cyflwyno dyletswydd statudol o onestrwydd a chymorth ar awdurdodau cyhoeddus a swyddogion cyhoeddus sy’n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a didwylledd wrth ymgysylltu ag ymholiadau ac ymchwiliadau i ymddygiad y wladwriaeth.)
 - gweithredu ein strategaeth defnyddwyr gwasanaeth newydd a defnyddio’r adborth a gasglwn i wella pob agwedd ar ein gwaith
 - datblygu a gweithredu fframwaith gwneud penderfyniadau newydd i wella cymesuredd a chysondeb ein prosesau gwneud penderfyniadau
 - hyfforddi staff a goruchwylwyr ymchwilio newydd a phresennol i gyflawni achrediad Rhaglen Ymchwiliadau Proffesiynol (PIP) a gydnabyddir yn genedlaethol i yrru ymchwiliadau cymesur a chyson
 - adolygu a yw ein Rhaglen Proffesiynoli Ymchwiliadau yn achrediad addas ar gyfer ein timau gwaith achos ac uned asesu

Mesurau llwyddiant

Byddwn yn:

- cwblhau 75% o ymchwiliadau annibynnol craidd o fewn 12 mis
- cwblhau 30% o ymchwiliadau annibynnol craidd o fewn 6 mis
- cwblhau adolygiadau IOPC o gwynion am yr heddlu fel bod y defnyddiwr gwasanaeth yn derbyn ein hymateb o fewn 60 diwrnod gwaith ar ddiwedd mis Mawrth 2027
- cwblhau penderfyniadau ar ddull ymchwilio ar gyfer pob achos a gyfeiriwyd o fewn cyfartaledd o 5 diwrnod gwaith
- cynyddu profiad cadarnhaol defnyddwyr gwasanaeth yn ein hymchwiliadau gan 5% (Byddwn yn mesur hyn yn ôl a yw’r defnyddiwr gwasanaeth wedi teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch a chwarteisi.)
- cynyddu profiad cadarnhaol defnyddwyr gwasanaeth yn ein hadolygiadau gan 5%(Byddwn yn mesur hyn yn ôl a yw’r defnyddiwr gwasanaeth wedi teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch a chwarteisi.)
- sicrhau bod 80% o ymchwilwyr yn cwblhau achrediad a gydnabyddir yn genedlaethol yn brydlon

Systemau a phrosesau sy'n gweithio i'n defnyddwyr gwasanaeth a ninnau

Er mwyn adeiladu ar y gwelliannau a wnaethom yn 2025/26, byddwn hefyd yn sicrhau bod y systemau a'r prosesau y mae ein staff yn dibynnu arnynt yn gweithio iddyn nhw ac, yn hollbwysig, i ddefnyddwyr ein gwasanaeth. Yn 2026/27, byddwn yn cyflawni ein hamcan strategol drwy'r gweithgareddau canlynol:

Blaenoriaethau 2026/27

- Byddwn yn defnyddio'r data sydd ar gael i ni i sbarduno gwelliannau i'r gwaith a wnawn a'r system cwynion ehangach.
- Byddwn yn sicrhau bod ein holl waith yn ein cefnogi i fod yn sefydliad gwerthfawr.

Ein gweithgareddau yn 2026/27

Byddwn yn cyflawni ein hamcan strategol drwy:

- hyrwyddo deallusrwydd artiffisial a galluoedd awtomeiddio yn ein prosesau, yn enwedig lle bydd hyn yn ein helpu i weithio'n gyflymach ac yn fwy effeithlon
- sicrhau bod ein cyllidebau'n canolbwyntio ar gyflawni gweithredol a bod ein hamcanion strategol yn cael eu cefnogi gan swyddogaethau corfforaethol main ac effeithlon
- symleiddio ac integreiddio technoleg, data a dadansoddeg i ddarparu mewnwelediad dibynadwy i gefnogi gwneud penderfyniadau
- cynyddu gwerth yr adnoddau sydd gennym, gyda chyllid wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau
- sicrhau bod ein prosesau caffael yn cael y gwerth gorau gan ein cyflenwyr a'n contractau
- gwella prosesau llywodraethu, adrodd a rheolaeth ariannol, a rheoli risg i gefnogi ein gweithrediad effeithiol
- creu lle gwych i weithio drwy amgylcheddau ffisegol o ansawdd uchel, dyfeisiau digidol a chymwysiadau technoleg sy'n cefnogi ein staff i wneud eu gwaith

- datblygu cronfa ddata ganolog i ddod â'r atebion ar wahân a ddefnyddiwn ar gyfer cyllid, pobl a recriwtio ynghyd er mwyn darparu gwell werth am arian

Mesurau llwyddiant

Byddwn yn:

- datrys cwynion gwasanaeth safonol a wneir yn erbyn IOPC o fewn cyfartaledd o 20 diwrnod gwaith yn dilyn y diwrnod rydym yn eu derbyn. (Nid yw hyn yn cynnwys cwynion difrifol, cymhleth, na chwynion sydd wedi cael eu hepgor.)

Pobl sydd wedi ymgysylltu, wedi'u galluogi a'u grymuso

Mae darparu gwasanaeth gwych i'n defnyddwyr yn golygu bod yn rhaid i'n staff allu perfformio hyd eithaf eu gallu a'n bod ni'n eu helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r galluoedd i wneud hynny. Yn 2026/27, byddwn yn cyflawni ein hamcan strategol drwy'r gweithgareddau canlynol:

Blaenoriaethau 2026/27

- Byddwn yn rheoli ac yn datblygu ein staff fel eu bod yn gallu cyfrannu'n effeithiol at waith IOPC.

Ein gweithgareddau yn 2026/27

Byddwn yn cyflawni ein hamcan strategol drwy:

- datblygu cynllun gweithlu strategol a gweithredol i sicrhau bod gennym yr adnoddau cywir yn y lle cywir ar yr amser cywir a bod gan ein staff y gallu i gyflawni eu rolau
- cefnogi datblygiad ein staff drwy brentisiaethau, hyfforddi a mentora
- meithrin gallu arweinyddiaeth ar draws y sefydliad drwy gyflwyno ein rhaglen hyfforddi Tyfu, Ysbrydoli, Arwain
- gwella rheoli perfformiad ein staff drwy osod amcanion a fydd yn eu hymestyn ac yn eu dwyn i gyfrif am y gwaith y disgwylir iddynt ei gyflawni
- adolygu ein cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i ganolbwyntio ar gynyddu cynrychiolaeth cymunedau amrywiol ymhlith staff, yn ogystal â chyflawni cynllun gweithredu anabledd
- diweddarau ein polisiau i adlewyrchu Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025 .
- adolygu ein prosesau recriwtio a dethol fel eu bod yn fwy effeithlon, yn ein galluogi i lenwi swyddi gwag yn gyflymach, ac yn cefnogi ein nod o gynyddu amrywiaeth yn enwedig ar lefelau uwch
- cydnabod a gwobrwyo ein staff drwy wobrau am wasanaeth a byw ein gwerthoedd IOPC

- cyflawni'r ymrwymïadau yn ein cynllun pobl i fynd i'r afael â'r adborth a ddarparwyd drwy ein harolwg staff 2025/26

Mesurau llwyddiant

Byddwn yn:

- cynyddu cynrychiolaeth pobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn ein gweithlu i o leiaf 16% yn unol â phoblogaeth y DU
- cynyddu cynrychiolaeth a hunan-ddatgeliad gweithwyr anabl
- cyflawni cyfradd absenoldeb salwch gyfartalog o wyth diwrnod neu lai, fesul gweithiwr
- cynyddu sgôr mynegai ymgysylltiad gweithwyr uwchlaw 54%. (Mae ymgysylltu â gweithwyr yn ddull gweithle sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod gweithwyr wedi ymrwymo i nodau a gwerthoedd eu sefydliad, ac wedi'u cymell i gyfrannu at lwyddiant y sefydliad. Mae hyn yn eistedd ar raddfa o 0% ar gyfer diffyg ymgysylltiad hyd at 100% ar gyfer ymgysylltiedig iawn.)

Mae ein gwaith yn ychwanegu gwerth ac yn cael effaith gadarnhaol

Mae IOPC yn hanfodol i wella hyder y cyhoedd mewn plismona yng Nghymru a Lloegr. Mae'n hanfodol ein bod yn darparu gwasanaeth effeithiol i'r rheiny rydym yn dod i gysylltiad â nhw, a'n bod yn dangos manteision ein gwaith i'r cyhoedd ehangach. Byddwn yn cyflawni ein hamcan strategol drwy'r gweithgareddau canlynol:

Blaenoriaethau 2026/27

- Byddwn yn sicrhau bod ein gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu yn atgyfnerthu ein nod o ddarparu gwasanaeth gwybwyddu ddangos effaith ein gwaith.

Ein gweithgareddau yn 2026/27

Byddwn yn cyflawni ein hamcan strategol drwy:

- datblygu a gweithredu ein strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i sicrhau y gallwn godi ymwybyddiaeth a hyder yn ein gwaith
- gwella tryloywder y penderfyniadau rydym yn gwneud am y gwaith a wnawn, fel bod defnyddwyr ein gwasanaeth yn deall ac yn ymddiried yn ein penderfyniadau
- gwella arferion plismona drwy ddatblygu a chyhoeddi argymhellion dysgu a chyhoeddi ein cylchgronau Dysgu'r Gwersi
- darparu goruchwyliaeth effeithiol o system gwynion yr heddlu trwy gyhoeddi data am gwynion a wneir i bob llu heddlu a marwolaethau yn dilyn cyswllt â'r heddlu, yn ogystal â thrwy ymgysylltiad rheolaidd ag Adrannau / Cyfarwyddiaethau Safonau Proffesiynol yr heddlu, a chyhoeddi ein canllawiau Ffocws
- defnyddio'r data a'r wybodaeth rydym yn casglu drwy ein ymchwiliadau, ein gwaith achos a'n hymgysylltiad i weithio gyda'r Llywodraeth i wella'r system gwynion ac ymddygiad yr heddlu, fel ei bod yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a'r heddlu ill dau

Mesurau llwyddiant

Byddwn yn:

- cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o IOPC i uwchlaw 62%
- Cynyddu canran y rhanddeiliaid plismona sy'n credu bod IOPC yn perfformio'n dda wrth nodi a rhannu dysgu o'i waith er mwyn gwella plismona
- cynyddu cytundeb rhanddeiliaid bod IOPC yn gwella eu hyder yn system gwynion yr heddlu i uwchlaw 49% (Gwaelodlin 25/26). (Mesurir hyn drwy arolwg i rhanddeiliaid yr ydym wedi ymgysylltu â nhw o fewn y 18 mis diwethaf.) Mae hyn yn cynnwys rhanddeiliaid yr heddlu, rhanddeiliaid fframwaith atebolrwydd yr heddlu a gall gynnwys adrannau'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus anadrannol, cyrff proffesiynol, fforymau gwneud penderfyniadau a chymdeithasau staff o fewn y sector plismona. Mae hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid nad ydynt yn rhan o'r heddlu a gall gynnwys elusennau, sefydliadau cymunedol ac academyddion.)

Ein cyllid a’n risgiau

Ein cyllid a’n risgiau

Rydym yn cael ein hariannu gan y Swyddfa Gartref trwy gymorth grant. Yn 2026/27, bydd IOPC yn derbyn £71.01 miliwn mewn cyllid refeniw. Mae’r tabl isod yn crynhoi cyllideb ein Swyddfa Gartref ar gyfer 2026/27.

Dros y saith mlynedd diwethaf, mae ein cyllideb wedi lleihau mewn termau real. Er mwyn rheoli’r pwysau hyn a bodloni’r galw o fewn ein cyllideb, rydym wedi cyflawni effeithlonrwydd mewn blynnyddoedd blaenorol. Mae’r rhain yn cynnwys lleihau ein hystâd, lleihau staff, dadgyfuno ein system TGCh a gweithredu ailstrwythuriad o’r uwch reolaeth. Ailfuddsoddwyd arbedion mewn blaenoriaethau allweddol gan gynnwys trawsnewid, galluoedd Deallusrwydd Artiffisial, a chryfhau darpariaeth weithredol rheng flaen ar draws gwaith achos ac ymchwiliadau. Byddwn yn parhau i leihau ein costau cymaint â phosib ac yn parhau i drawsnewid y sefydliad.

	Cyllideb y Swyddfa Gartref
	£m
Cyfanswm Costau Staff	59.63
Teithio a chynhaliaeth gan gynnwys fflyd	0.89
Hyfforddiant a recriwtio	0.50
Llety	2.76
TGCh	5.74
Costau cyfreithiol	0.68
Ffioedd proffesiynol	0.37
Cyfryngau a chyfathrebu	0.27
Costau uniongyrchol ymchwiliadau	0.37
Costau a gwasanaethau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â staff	0.42
Cyfanswm costau nad ydynt yn gostau staff	11.98
Incwm	(0.60)
CYFANSWM	71.01

Ein risgiau

Dyma’r risgiau allweddol i gyflawni yn ystod 2026/2027:

Cyllid

Rydym yn rhagweld nifer o heriau i’n cyllideb ar gyfer 2026/27. Mae gennym lefelau cynyddol o alw am adolygiadau ac ymchwiliadau. Rydym yn wynebu costau staff cynyddol er mwyn ein galluogi i fodloni’r galw cynyddol. Heb orwario ar ein cyllideb dynodedig, ni fyddwn yn gallu ymateb i’r her hon a bydd gwelliannau rydym eisoes wedi’u gwneud drwy ein rhaglen Drawsnewid yn cael eu gwrthdroi. I reoli hyn, rydym yn cael deialog barhaus â’r Swyddfa Gartref sy’n darparu ein cyllid ac yn cymryd camau i ystyried effaith cyllid heriol dros y tair blynedd nesaf.

Galw cynyddol yn effeithio ar ein darpariaeth

Er ein bod wedi cwblhau mwy o adolygiadau nag a dderbyniwyd bob mis yn gyson ers mis Ionawr 2025, mae’r galw’n parhau i gynyddu. Gallai cynnydd pellach yn y galw yn ystod 2026/27 erydu ein gallu i barhau i gyflawni lefelau uchel o berfformiad yn ein timau gwaith achos. Rydym yn lliniaru’r risg drwy flaenoriaethu ein cyllideb ar ein timau gweithredol, yn ogystal â thrawsnewid mwy radical yn ein prosesau gwaith achos.

Rheoli data a dangos effaith

Mae angen i ni wneud gwelliannau yn ein systemau a rheoli data er mwyn ein galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus a rhoi tystiolaeth i ddefnyddwyr

gwasanaethau a rhanddeiliaid o wella arferion plismona. I fynd i’r afael â hyn, fe wnaethom sefydlu prosiect a fydd yn ystyried y systemau sydd gennym ac yn sicrhau y gallwn gael mewnwelediad o’r data a’i fwydo i’n gwaith. Fe wnaethom hefyd roi eglurder i staff ar bwysigrwydd nodi gwersi i’w trosglwyddo i wella plismona.

Bygythiad seiber

Mae’r bygythiad o ymosodiad seiber ar ein systemau yn parhau i fod yn bryder cyson. Yn y senario mwyaf eithafol, gallai ymosodiad o’r fath effeithio ar ein gallu i weithredu. Byddai hyn yn tanseilio ein enw da a hyder ein rhanddeiliaid a defnyddwyr ein gwasanaethau. Rydym yn lliniaru’r risg hon drwy ein strategaeth seiber a’n rhaglen waith flynyddol gysylltiedig barhaus i amddiffyn, canfod ac ymateb i risg seiber. Rydym hefyd yn gwneud newidiadau polisi ac yn hyfforddi ein timau cyfreithiol, cyllid a TGCh i fynd i’r afael â bygythiadau penodol a meysydd o fregusrwydd.

Cyflawni Trawsnewidiad

Gallai ein rhaglen Trawsnewid weithredu newidiadau yn rhy araf i gyflawni’r gwelliannau yr ydym am eu gweld yn ein hamseroldeb a’n cynhyrchiant. Gallai hyn fod oherwydd heriau fel galw cynyddol a chyllid nad yw’n ein galluogi. Gallai hyn arwain at golli hyder yn IOPC a’n rhaglen Drawsnewid, a’n gallu i wella ein perfformiad. Rydym yn canolbwyntio cyflawni’r rhaglen ar weithgarwch a fydd â’r effaith fwyaf fel Deallusrwydd Artiffisial

(AI). Rydym hefyd yn gwneud staff yn fwy ymwybodol o’r newidiadau rydym am eu gwneud a sut y bydd hyn yn effeithio arnynt, fel eu bod yn barod i dderbyn y newid hwnnw.

Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial

Mae’r defnydd cynyddol o offer deallusrwydd artiffisial sydd ar gael yn gyhoeddus yn cyflwyno’r risg o gamwybodaeth i’n gwaith gweithredol, gan y gall yr offer hyn gynhyrchu cynnwys anghywir, allan o ddyddiad, neu ffug. Byddai hyn yn tanseilio hyder defnyddwyr ein gwasanaeth yn ein gwaith. Rydym yn lliniaru’r risg hon drwy fonitro gwybodaeth gamarweiniol sydd yn y parth cyhoeddus a chymryd camau cywirol pan fydd angen.

Rydym hefyd yn gweld y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial yn arwain at gynnydd yn nifer yr adolygiadau, yr adolygiadau barnwrol ac ymholiadau i’n canolfan gyswllt cwsmeriaid. Mae deallusrwydd artiffisial yn helpu aelodau’r cyhoedd i lywio’r system a all fod yn gymhleth. Byddwn yn darparu canllawiau ar ein gwefan i helpu achwynwyr i ddeall eu hawliau a phryd y gallwn ddefnyddio ein pwerau i helpu i reoli’r galw.

Cymhlethdod y system gwynion ac ymddygiad

Gallai newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i system gwynion ac ymddygiad yr heddlu ychwanegu mwy o gymhlethdod i’r system a gallai hyn effeithio ar allu ein staff i gwblhau ein ymchwiliadau a’n adolygiadau yn

amserol. Rydym yn lliniaru’r risg hon drwy ymgysylltu’n aml ac yn rheolaidd â’r Llywodraeth wrth iddi ddatblygu ei deddfwriaeth newydd, yn ogystal â diweddarau ein polisïau mewnol a hyfforddiant i staff i sicrhau y gallant addasu i’r newidiadau yn effeithlon ac yn effeithiol.



Mwy o wybodaeth

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am y cynllun hwn mewn fformat amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

www.policeconduct.gov.uk/cy

Dilynwch ni ar Twitter: **@policeconduct**

Anfonwch e-bost atom ar: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Ffoniwch ni ar: **0300 020 0096**

Cyfnewid testun: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom ni yn:

IOPC

10 South Colonnade

Canary Wharf

London

E14 4PU

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.

This document is also available in English.

Gorffennaf 2026

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2026)

OGL

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0
oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon.

Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.